Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Gwybodaeth am Ddiogelu Oedolion ar gyfer perthnasau a ffrindiau

Mae materion diogelu O BWYS I BAWB
Safeguarding is EVERYONE'S RESPONSIBILITY

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh

GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol National Probation Service
BAVO
Interlink Rhondda Cynon Taf
Voluntary Action Merthyr Tydfil Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend
Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Merthyr Tydfil County Borough Council

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

Mae'r daflen yma'n esbonio beth fyddwn ni'n ei wneud pan fyddwn ni'n pryderu y gallai oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae'n dweud wrthych chi beth sy'n digwydd, a sut y mae modd i chi, fel perthynas, ffrind, cynhaliwr neu warcheidwad, fod yn rhan o'r broses.

**Mae Diogelu Oedolion yn golygu amddiffyn hawl oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth i wneud y canlynol:**

- **Byw mewn diogelwch, yn rhydd rhag cam-drin ac esgeulustod.**
- **Cael rheolaeth dros yr hyn maen nhw'n ei wneud.**

O ran diogelu oedolion, cam-drin yw pan fydd rhywun yn gwneud neu'n dweud rhywbeth sy'n niweidio oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth. Mae esgeulustod yn fath o gam-drin sy'n digwydd pan fydd rhywun yn methu â darparu gofal neu gefnogaeth i oedolyn, gan arwain at niwed neu eu rhoi mewn perygl. Mae'n golygu peidio â gwneud rhywbeth sy'n angenrheidiol i gadw'r person yn ddiogel neu'n iach.

**Mae modd i gam-drin ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhywbeth sy'n digwydd dros wythnosau, misoedd neu flynyddoedd. Mae modd iddo fod yn ddamweiniol neu'n fwriadol.**

**Mae cam-drin bob amser yn annerbyniol.**

**Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin ag urddas a pharch.**

**Does gan neb yr hawl i gam-drin rhywun.**

# Beth yw Rôl Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn y Weithdrefn Diogelu?

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn arwain ac yn cydlynu gwaith diogelu ledled Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae diogelu oedolion yn rhan bwysig o'r hyn y mae llawer o wasanaethau cyhoeddus yn ei wneud, ac yn gyfrifoldeb allweddol i awdurdodau lleol.

Rydyn ni'n gweithio gyda'r heddlu, gwasanaethau iechyd, tai, sefydliadau gwirfoddol, ac unrhyw un arall a all helpu i gadw oedolion ag anghenion gofal a chymorth yn ddiogel.

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Beth yw rôl perthnasau a ffrindiau yn y Weithdrefn Diogelu?

Yn aml, mae perthnasau a ffrindiau'n helpu i gefnogi oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth i gymryd rhan yn ei ddiogelu ei hun.

Bydd eich rôl yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau a dymuniadau'r oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth, ond mae modd iddo gynnwys:

- **Cefnogi'r oedolyn i ddweud wrthon ni beth yw ei ddymuniadau ac i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei glywed.**
- **Siarad ar ei ran er ei les gorau os nad oes gan yr oedolyn y gallu meddyliol i wneud hynny.**
- **Ei gefnogi mewn cyfarfodydd a chyfweliadau.**
- **Rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth am y risgiau mae'n eu profi a'i anghenion cymorth.**
- **Cefnogi asesiad o anghenion, gan gynnwys eich anghenion chi fel cynhaliwr.**
- **Ein helpu i atal y cam-drin neu leihau'r posibilrwydd o gam-drin pellach.**

# Beth os yw'r sefyllfa hefyd yn effeithio ar fy niogelwch?

**Rydyn ni'n cydnabod bod pobl sy'n gofalu am oedolion weithiau hefyd yn profi risgiau i'w diogelwch. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i weld beth y mae modd i ni ei wneud i helpu. Er enghraifft, efallai y bydd modd i ni gynnig asesiad cynhaliwr a rhywfaint o gefnogaeth i chi yn eich rhinwedd eich hun.**

# Pryderon ynghylch cam-drin neu esgeulustod

**Os ydyn ni'n pryderu y gallai oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, mae'n rhaid i dri pheth ddigwydd ar unwaith.**

- Rydyn ni'n gwirio i weld a yw eich perthynas neu ffrind mewn perygl uniongyrchol.
- Bydd gweithiwr proffesiynol yn siarad â'r oedolyn ac yn gwrando ar yr hyn mae eisiau digwydd. Bydd yn rhoi gwybod am yr hyn rydyn ni'n ei wneud a pham.
- Byddwn ni'n gweithio gyda'r oedolyn i wneud yn siŵr bod y lefel gywir o gefnogaeth yn ystod unrhyw ymchwiliad.
- Os ydyn yn credu bod eich perthynas neu ffrind mewn perygl uniongyrchol, byddwn ni'n gweithio'n gyflym i'w wneud yn ddiogel.
- Os ydyn ni'n credu NAD yw mewn perygl uniongyrchol, byddwn ni'n siarad â'r oedolyn ac yn penderfynu beth i'w wneud nesaf. Byddwn ni'n siarad am ei bryderon ac yn nodi barn, dymuniadau a theimladau.
- Os ydyn ni'n credu bod eich perthynas neu ffrind mewn perygl uniongyrchol ac rydyn ni hefyd yn credu nad oes gallu meddyliol i wneud penderfyniadau ynghylch beth i'w wneud, mae'n rhaid i ni weithio'n gyflym a gwneud yr hyn rydyn ni'n credu sydd orau. Rhaid i ni fod yn ofalus iawn ynglŷn â'r hyn rydyn ni'n penderfynu ei wneud ac mae canllawiau llym i'n helpu i benderfynu beth sydd er ei les gorau. Byddwn ni'n gweithio gyda phobl a all ei gynrychioli ac sy'n deall ei farn.

**Noder – Mae diffyg gallu meddyliol yn golygu nad yw'n deall y sefyllfa ac nad oes modd gwneud penderfyniadau ynghylch beth i'w wneud. Mae modd i'r gweithiwr proffesiynol ddweud rhagor wrthych chi am allu meddyliol.**

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Sut ydyn ni'n penderfynu beth i'w wneud?

Os bydd darparwr gofal (megis cartref gofal) yn nodi pryder diogelu mewn perthynas â'ch ffrind neu berthynas, mae dyletswydd arno i gyfeirio at yr Awdurdod Lleol.

Os yw'r pryder yn ymwneud â throsedd honedig, megis ymosodiad, mae dyletswydd ar y darparwr gofal i rannu hyn gyda'r heddlu. Yn yr amgylchiadau yma mae modd diystyru caniatâd eich ffrind neu berthynas.

Byddwn ni'n trafod ac yn casglu gwybodaeth am y pryderon. Weithiau byddwn ni'n cynnal cyfarfodydd diogelu. Mae'r rhain i ddarganfod beth yw'r broblem a beth sydd angen i ni ei wneud nesaf i wella pethau. Weithiau y bydd angen cynllun diogelu arnon ni hefyd i helpu i wneud y sefyllfa'n ddiogel.

# Cyfarfodydd Diogelu

**Caiff cyfarfodydd diogelu eu cynnal fel bod modd i staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac unrhyw bartneriaid eraill ddod at ei gilydd er mwyn:**

- Sefydlu'r ffeithiau allweddol
- Gwrando ar farn a dymuniadau'r oedolyn dan sylw
- Nodi a oes angen cymryd camau pellach i sicrhau diogelwch a lles

Mae cyfarfodydd diogelu ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Bydd barn, dymuniadau a deilliannau eich perthynas neu ffrind yn cael eu trafod yn y cyfarfod, gan sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed ac yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau.

Rydyn ni'n ofalus iawn gyda gwybodaeth bersonol, felly dim ond gweithwyr proffesiynol sydd wir angen bod yno y byddwn ni'n eu gwahodd.

Mae gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu'r cyfarfod diogelu yn gwybod bod popeth a gaiff ei ddweud yn gyfrinachol.

# Eiriolwyr Annibynnol

**Mae modd i eiriolwr annibynnol gefnogi eich perthynas neu ffrind a bydd yn:**

- Gwrando
- Darparu gwybodaeth
- Egluro opsiynau
- Ei helpu i wneud ei benderfyniadau ei hunan

**Prif nod diogelu oedolion yw amddiffyn y person sydd mewn perygl a sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth. Bydd y camau a gaiff eu cymryd yn erbyn y person sydd wedi achosi niwed yn dibynnu ar yr hyn y mae'r oedolyn sydd mewn perygl ei eisiau, yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud, a'r hyn a fydd yn ei gadw'n ddiogel. Os bydd rhywun yn cael ei ganfod yn cam-drin neu'n esgeuluso oedolyn, gall sawl peth ddigwydd, yn dibynnu ar y sefyllfa a difrifoldeb y niwed:**

Efallai y caiff ei adrodd i'r heddlu, yn enwedig os yw trosedd wedi'i gyflawni.

Os yw'n gynhaliwr cyflogedig, yn weithiwr iechyd, neu'n wirfoddolwr, efallai y caiff ei wahardd neu ei ddiswyddo.

Gall ei atal rhag swyddi gofal neu gymorth yn y dyfodol. Bydd mesurau amddiffynnol yn cael eu trin a'u trafod i gefnogi'r oedolyn sydd mewn perygl os yw am barhau i weld y person, neu os na fydd eisiau cyswllt mwyach.

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Beth sy'n digwydd ar ddiwedd proses diogelu oedolion?

Pan fydd y broses wedi'i chwblhau, efallai y byddwn ni'n trefnu cyfarfod diogelu terfynol neu'n cysylltu â'ch perthynas neu ffrind, neu ei gynrychiolydd, i drafod yr hyn sydd wedi digwydd a'r hyn sydd angen digwydd nesaf.

Os ydyn ni'n credu ei fod yn ddiogel, fyddwn i ddim yn cymryd unrhyw gamau pellach a bydd yr achos yn cael ei gau.

Os ydyn ni'n credu ei fod yn dal i fod mewn perygl o gael ei gam-drin, byddwn ni'n siarad am yr hyn y mae modd ei wneud i atal y cam-drin. Daw hyn yn Gynllun Diogelu.

Rydyn ni'n cofnodi ein holl weithredoedd ar ein system gyfrifiadurol. Mae modd i'r oedolyn dan sylw weld beth sydd wedi'i gofnodi.

# Beth yw Cynllun Diogelu?

**Os ydyn ni'n credu bod eich perthynas neu ffrind yn dal i fod mewn perygl o gael ei gam-drin, byddwn ni'n rhoi cynllun diogelu ar waith. Bydd y cynllun yma'n nodi'r hyn y mae modd i ni ei wneud i leihau'r risg y bydd yn cael ei niweidio neu ei gam-drin.**

Bydd person penodol yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei roi ar waith.

Byddwn ni'n adolygu'r cynllun yn rheolaidd gyda'ch perthynas neu ffrind ac unrhyw bobl eraill sy'n ymwneud â'r cynllun diogelu.

# Beth sy'n digwydd wedi hynny?

## Efallai y byddwn ni'n gofyn i chi:

- Pa mor fodlon oeddech chi â chanlyniad terfynol yr hyn a wnaeth pobl i geisio cadw'ch perthynas/ffrind/person rydych chi'n gofalu amdano yn ddiogel?
- Pa mor fodlon oeddech chi â sut y gwnaeth pobl ddelio â'r pryder drwy gydol y broses?
- Gawsoch chi neu'ch perthynas/ffrind/person rydych chi'n gofalu amdano gyfle i ddweud yr hyn roeddech chi eisiau ei ddigwydd?

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n dweud wrthon ni beth yw eich barn, fel bod modd i ni adolygu sut rydyn ni'n gwneud pethau a gwneud gwelliannau yn ôl yr angen.

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Pa mor hir fydd y broses yn ei chymryd?

Mae hyd y broses yn dibynnu ar beth oedd y pryder. Byddwn ni bob amser yn gweithio i ddatrys pethau mewn modd amserol, ond rhaid i'r canolbwynt fod ar anghenion y person. Byddwn ni bob amser yn rhoi gwybodaeth i'ch perthynas neu ffrind. Os oes gyda'r unigolyn unrhyw gwestiynau neu bryderon, ar unrhyw adeg, mae modd siarad â ni bob amser.

Mae modd i chi hefyd gysylltu â ni unrhyw bryd a byddwn ni'n rhannu gwybodaeth gyda chi cyn belled â bod gyda ni ganiatâd yr oedolyn dan sylw.

**Os ydych chi'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y manylion cyswllt yw:**
adultsafeguardingMASH@bridgend.gov.uk
01656 642477

**Os ydych chi'n byw ym Merthyr Tudful, y manylion cyswllt yw:**
adult.protection@merthyr.gov.uk
01685 725000

**Os ydych chi'n byw yn Rhondda Cynon Taf, y manylion cyswllt yw:**
OedolionMewnPerygl@rctcbc.gov.uk
01443 425003